# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 03-08 (p1) Atodiad 1: 30 Ionawr 2008**

## Ymchwiliad i Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch

### Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Abertawe – parthed Bologna

### Amcan

Amcan yr adran hon o'r papur yw tynnu sylw'r Pwyllgor at y datblygiadau pwysig sy'n digwydd o fewn addysg uwch yn Ewrop, ac ar draws y byd, o dan enw Proses Bologna, sy'n cynnwys prifysgolion a llywodraethau 46 o wledydd. Mae Proses Bologna yn fudiad rhyngwladol newydd a digynsail. Y sector sy'n symud y Broses yn ei blaen, ac fe'i harweinir gan Gymdeithas Prifysgolion Ewrop (EUA), yn unol ag argymhellion myfyrwyr a chyflogwyr. Yn ogystal, ceisia'r papur annog Llywodraeth y Cynulliad i fod yn rhyngweithiol er mwyn sicrhau cyfraniad oddi wrth fuddgyfranogwyr, i adeiladu ar lwyddiant y sector yng Nghymru hyd yma, nid yn unig drwy hwyluso cydweithrediad â phrifysgolion eraill yn Ewrop, ond hefyd â diwydiant a masnach, yn lleol ac yn rhyngwladol.

### Cefndir

"Nod Proses Bologna yw creu Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd erbyn 2010, lle gall myfyrwyr ddewis o blith ystod eang ac eglur o gyrsiau o ansawdd uchel a manteisio ar ddulliau rhwydd o gydnabod cyrsiau. Mae Datganiad Bologna Mehefin 1999 wedi rhoi cyfres o newidiadau ar waith sy'n angenrheidiol i wneud Addysg Uwch Ewropeaidd yn fwy cydnaws a chymaradwy, ac yn fwy cystadleuol a deniadol i Ewropeaid ac ysgolheigion o gyfandiroedd eraill. Roedd diwygio'r system yn angenrheidiol bryd hynny ac mae'n angenrheidiol heddiw hefyd er mwyn i Ewrop berfformio cystal â'r systemau sy'n perfformio orau yn y byd, megis yr Unol Daleithiau ac Asia."" "[Y Comisiwn Ewropeaidd - EUROPA - Awst. 2007]

Mae'n hanfodol i'r sector addysg uwch yng Nghymru fod yn rhan o'r broses hon oherwydd ei bod yn cynnig rhwydweithiau a chyfleoedd sy'n bodoli eisoes, a fydd yn tanategu'r cydweithredu â sefydliadau o safon ryngwladol a chyswllt â datblygiadau yn y farchnad waith ryngwladol. Gan gydnabod effaith globaleiddio ar y farchnad waith, pwysleisia London Communiqué (2007) bwysigrwydd symudedd myfyrwyr a staff er mwyn gwella cyfleoedd gwaith yn rhyngwladol. Fel y nododd Bill Rammell, y Gweinidog Dysgu Gydol Oes, Prifysgolion a Sgiliau ar yr achlysur hwnnw, "Mae ymdrech Bologna i gynyddu symudiad rhydd myfyrwyr a staff, i wella cyflogadwyedd dysgwyr ac i wneud yr UE yn fwy deniadol a chystadleuol yn hanfodol er mwyn sicrhau ein parhad a'n llwyddiant yn y dyfodol". Ers ymgorffori graddau Doethuriaeth ym Mhroses Bologna yn 2005, fel gradd y trydydd cylch, mae amcanion yr Ardal Ymchwil Ewropeaidd a Datganiad Lisbon wedi dod yn rhan greiddiol o weithgareddau academaidd. Mae darpariaeth ôl-raddedig prifysgolion wedi dod yn un o brif nodau agenda Bologna yn ddiweddar, yn enwedig trwy raglen Doethuriaeth yr EUA. Rhoddwyd lle blaenllaw i symudedd, graddau ar y cyd (yn cynnwys prifysgolion Ewropeaidd a'r rheiny y tu allan i Ewrop), yr agenda sgiliau, a chyswllt â diwydiant. Mae buddsoddiad sylweddol y Comisiwn Ewropeaidd yn rhaglen Erasmus Mundus, a fydd yn ymgorffori graddau Doethuriaeth yn ei hail gam, yn adlewyrchu pwysigrwydd datblygu rhaglenni a fydd yn cynhyrchu ôl-raddedigion â gwell sgiliau ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Yn y misoedd cyn Cyfarfod Gweinidogion Leuven yn 2009, caiff cynlluniau ar gyfer camau olaf y gwaith o drawsnewid Proses Bologna yn Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd eu datblygu, trwy gyfres o seminarau ffurfio polisi. Yn ddiddorol, mae'r EUA wedi pwysleisio'r amcan canlynol:

"Mae cryfhau'r berthynas rhwng llywodraethau, sefydliadau addysg uwch a rhanddeiliaid cymdeithasol eraill yn hanfodol er mwyn gosod seiliau cadarn i Broses Bologna a chynnal ei hamcanion. Un flaenoriaeth bwysig a hanfodol fydd ehangu'r trafodaethau â chyflogwyr, myfyrwyr, rhieni a rhanddeiliaid eraill, er mwyn cynyddu ymddiriedaeth a hyder yn ansawdd a pherthnasedd y cyfraniad a wneir gan sefydliadau i'r Broses."

[Trends V, cyhoeddiad EUA 2007]

Mae cyswllt Llywodraeth y Cynulliad â Phroses Bologna yn cynnwys: y Gweinidog yn mynychu Cyfarfod Gweinidogion Bergen yn 2005; cyd-drefnu ac arwain Seminar swyddogol Grwp Dilyniant Bologna, "Gwella Cyflogadwyedd yn Ewrop" yn Abertawe yn 2006; arwain Cynhadledd y 4 Rhanbarth Gyriant yn Abertawe yn 2006; mynychu Cyfarfod Gweinidogion yn Llundain yn 2007 (arsyllwr).

### Crynodeb / Argymhellion

Anogir y Pwyllgor i ystyried argymell cymryd y camau isod:

Sicrhau y bydd Cymru'n cael ei chynrychioli yng Nghynhadledd Leuven yn 2009 ac y bydd y Cynulliad yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau.

Sicrhau y bydd cynrychiolaeth ar ran sector addysg uwch Cymru / y Cynulliad Cenedlaethol mewn seminarau llunio polisi allweddol hyd at 2009, ac y bydd proffil Cymru'n dod yn fwy amlwg, gan ddiogelu buddiannau Cymru a chan geisio sicrhau'r fantais fwyaf gan ddatblygiadau newydd.

Pwysleisio pwysigrwydd ymreolaeth sefydliadol wrth greu sector addysg uwch Ewropeaidd cwbl effeithiol – mae hwn yn un o brif amcanion Bologna.

Gweithredu er mwyn hyrwyddo symudedd a pharatoi myfyrwyr ar gyfer cyfleoedd fel hyn, trwy gysylltu â hwy yn gynnar, a hyrwyddo dysgu ieithoedd mewn ysgolion a phrifysgolion; rhoi cymorth i rwydweithiau cenedlaethol; cysylltu â phrifysgolion er mwyn goresgyn rhwystrau i sefydlu graddau ar y cyd.

Hwyluso rhyngweithio rhwng prifysgolion a Diwydiant, yn enwedig â chwmnïau rhyngwladol a busnesau bach a chanolig yn lleol, er mwyn canfod disgwyliadau'r byd gwaith a busnes ar gyfer ein myfyrwyr o ran sgiliau a phrofiad: byddai mewnbwn ganddynt wrth adolygu'r cwricwlwm hefyd yn fuddiol. Byddai'r cam hwn yn ymateb uniongyrchol i London Communiqué ac adroddiad Trends V.

Hwyluso rhyngweithio â Gweinidogion Ewropeaidd dros Addysg ar lefel y llywodraeth, a chynnwys sefydliadau addysg uwch, (e.e. cynnal cyfarfodydd a fydd yn cyd-ddigwydd â digwyddiadau yng Nghymru fel gemau rhyngwladol)

Cefnogi prifysgolion Cymru wrth ymateb i ofynion am gynigion a allai arwain at gyfleoedd gyrfaol gwell i fyfyrwyr lleol, yn enwedig o dan Erasmus Mundus II.

Argymhellir y bydd Proses Bologna, ac, ar ôl 2010, yr Ardal Addysg Uwch Ewropeaidd, yn sylfaen cadarn ac yn fan cychwyn delfrydol ar gyfer uchelgeisiau prifysgolion yn rhyngwladol.